Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

Deddf Priodi Dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007 – Trydydd Parti Perthnasol

Papur Ymgynghori CP31/07
Cyhoeddwyd ar 12 Rhagfyr 2007
Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 14 Mawrth 2008



Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

Deddf Priodi Dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007 – Trydydd Parti Perthnasol

Papur ymgynghori wedi'i gynhyrchu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae'r wybodaeth yma hefyd ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn: www.justice.gov.uk

Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb gweithredol	4
Rhagarweiniad	5
Y cynigion	8
Holiadur	14
Amdanoch chi	15
Sut i ymateb	16
Asesiad o Effaith	18
Meini prawf yr ymgynghoriad	25
Manylion cyswllt y Cydlynydd Ymgynghori	26

Rhagair

Nod Deddf Priodi Dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007 (y Ddeddf) yw cynnig amddiffyniad i rai sy'n wynebu priodi dan orfodaeth, p'un ai ydynt yn blant, yn bobl ifanc yn eu harddegau neu'n oedolion, beth bynnag yw eu cefndir, rhyw, hil neu grefydd. Mae'r Ddeddf yn rhoi disgresiwn eang i'r llysoedd i ddelio'n hyblyg a sensitif ag amgylchiadau pob achos unigol, drwy ddefnyddio atebion sifil a fydd yn cynnig amddiffyniad i ddioddefwyr heb wneud troseddwyr o aelodau o'u teulu.

Priodas dan orfod yw priodas heb ganiatâd llawn a rhydd y ddwy ochr. Mae'n fath o drais yn y cartref ac yn cam-drin hawliau dynol. Nid priodas wedi'i threfnu yw priodas dan orfod. Mewn priodas wedi'i threfnu, mae'r teulu'n arwain ar drefnu'r paru ond mae gan gyplau ddewis ynghylch a ydynt am briodi neu beidio. Gyda phriodas dan orfod, nid oes unrhyw ddewis.

Mae'r Ddeddf yn gam mawr arall ymlaen gyda mynd i'r afael â'r arfer niweidiol o orfodi pobl i briodi ac yn amddiffyn hawliau merched, yn enwedig, ond hefyd hawl pawb i ddewis pwy a phryd i briodi. Mae'r Ddeddf yn cefnogi gwaith yr Uned Priodi Dan Orfod a'r llu mudiadau gwirfoddol ac elusennol sy'n darparu cymorth. Bydd yn helpu i gryfhau'r neges glir na fydd priodi dan orfod yn cael ei oddef.

Mae'n bwysig bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu mewn ffordd fel bod dioddefwyr yn cael eu grymuso i gael y llys i wneud gorchymyn o dan ba bynnag amgylchiadau y maen nhw'n canfod eu hunain ynddynt. Ni fydd pob dioddefwr yn gallu gwneud cais ei hun i'r llys ac, yn yr achosion hyn, mae angen inni sicrhau bod person arall neu fudiad yn cael gwneud hynny ar eu rhan.

Mae hyn hefyd yn agwedd allweddol ar sicrhau bod y Ddeddf yn gweithio'n ymarferol a hoffwn gymell pawb i gyflwyno sylwadau.

Bridget Prentice

Crynodeb gweithredol

Derbyniodd Deddf Priodi Dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007 (y Ddeddf) y cydsyniad brenhinol ar 26 Gorffennaf 2007. Nod y Ddeddf yw amddiffyn rhai sydd mewn perygl o gael eu gorfodi i briodi a chynnig ateb i rai sydd eisoes wedi cael eu gorfodi i briodi. Mae'r Ddeddf hefyd yn anfon neges glir bod priodi dan orfod yn annerbyniol ac na fydd yn cael ei oddef.

O dan y Ddeddf, gall person sy'n cael ei orfodi i briodi neu sydd wedi cael ei orfodi i briodi wneud cais i'r llys am Orchymyn Amddiffyn Priodi Dan Orfod. Gall y llys orchymyn bod ymddygiad y rhai sy'n gorfodi rhywun arall i briodi yn newid neu'n peidio, neu osod gofynion arnynt. Os yw'r person yn methu â chydymffurfio â gorchymyn y llys, bydd y llys yn delio â nhw a medrant gael eu hanfon i'r carchar.

Fel rhan o'r broses o ddod â'r Ddeddf i rym, rydym yn ystyried sut y dylai'r Ddeddf weithio'n ymarferol. Un agwedd bwysig arni yw sut i hwyluso gwneud gorchmynion mewn amgylchiadau lle mae'r dioddefwr yn teimlo nad yw'n gallu neu lle mae'n gyndyn o wneud cais ei hun.

Mae'r Ddeddf yn rhoi hawl i ddioddefwr neu drydydd parti perthnasol wneud cais am Orchymyn Amddiffyn Priodi Dan Orfod heb ganiatâd y llys. Dim ond drwy ofyn i'r llys yn gyntaf y gall rhywun arall wneud cais. Trydydd person perthnasol yw person (neu fudiad), a enwir yn benodol gan yr Arglwydd Ganghellor, sy'n gallu gwneud cais ar ran rhywun arall heb ofyn am ganiatâd gan y llys.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar rôl y trydydd parti perthnasol. Mae'n gofyn am farn ynghylch yr angen am drydydd partïon perthnasol, sut fath o bobl neu fudiadau y dylent fod, a pha ragofalon sydd angen eu cymryd. Mae hefyd yn gwahodd awgrymiadau ymarferol ynghylch sut y gellir addasu'r broses o wneud cais i gwrdd ag anghenion rhai sy'n defnyddio'r Ddeddf.

Rhagarweiniad

Mae'r papur hwn yn egluro ar gyfer ymgynghori beth yw rôl y trydydd parti perthnasol o dan Ddeddf Priodi Dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007. Mae'r ymgynghoriad wedi'i dargedu at bob mudiad a phobl sy'n darparu cymorth i rai yr effeithir ganddynt gan briodi dan orfod yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyflawni'n unol gynnal yn unol â'r Cod Ymarfer ar Ymgynghori a gyhoeddir gan Swyddfa'r Cabinet ac mae'n dod o fewn sgôp y Cod. Mae'r meini prawf ar ymgynghori, a restrir ar dudalen 25, wedi cael eu dilyn.

Mae Asesiad o Effaith wedi'i gyfyngu i rôl y trydydd parti perthnasol wedi cael ei gwblhau ac awgrymir bod cyrff sector cyhoeddus a gwirfoddol efallai'n cael eu heffeithio. Mae'r cynigion yn debygol o arwain at gostau ychwanegol i elusennau neu'r sector gwirfoddol, neu i'r sector cyhoeddus, gan ddibynnu ar bwy sy'n dod yn drydydd parti perthnasol.

Mae Asesiad o Effaith ynghlwm yn nhudalen 18. Mae'r Asesiad o Effaith yn anghyflawn oherwydd bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn ei oleuo a'i fanwl gyweirio. Yn arbennig, byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ar yr Asesiad o Effaith a'r cwestiynau penodol a ofynnir ynddo.

Cafodd asesiad rhannol o effaith y rheoliadau ei gwblhau ar gyfer y Mesur. Bydd asesiad o effaith terfynol yn cael ei gwblhau a'i gyhoeddi unwaith y daw'r Ddeddf i rym.

Mae copïau o'r papur ymgynghori'n cael eu hanfon at (ymhlith eraill):

Cymdeithas Saheli Cymru Gyfan

Grŵp Seneddol Pob Plaid Cyfeillion Islam

Amnesti Rhyngwladol

Rhwydwaith Ashiana

Gwasanaeth Cwnsela Teuluoedd Asiaidd

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu

Cymdeithas y Barnwyr Rhanbarth

Cymdeithas y Twrneiod Plant

Cyngor y Bar

CAFCASS

CAFCASS Cymru

Uned Diogelwch Menywod Caerdydd

Gweithredu Cydlynus Yn Erbyn Trais yn y Cartref (CAADA)

Cynghrair Corfforaethol Yn Erbyn Trais yn y Cartref (CAADV)
Y Comisiwn Cydraddoldeb Hil
Cyngor y Barnwyr Cylchdaith
Cydlynwyr Trais yn y Cartref Gwasanaeth Erlyn y Goron
Uned Cyswllt â Mwslemiaid DCLG
Grŵp Cynghori ar Drais yn y Cartref
Uned Rithwir Trais yn y Cartref
Y Comisiwn Cyfle Cyfartal
Pwyllgor Rhyngwynebu â Throseddu Teuluol
Cyngor Cyfiawnder Teuluol
Cymdeithas y Bar Cyfraith Teulu
Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Teuluol
Swyddfeydd y Llywodraeth i'r Rhanbarthau
Prosiect Trais yn y Cartref Llundain Fwyaf
Grŵp Meistri'r Uchel Lys
Cyngor Hindwaidd y DU
Fforwm Hindwaidd Prydain
Y Swyddfa Gartref
Canolfan Menywod Asiaidd Hopscotch
IMKAAN
Cymdeithas Hawliau Merched Iranaidd a Cwrdaidd
Cyngor y Barnwyr
Y Swyddfa Gyfathrebu Farnwrol
Cymdeithas y Clercod Ynadon
Karma Nirvana
Cymdeithas y Gyfraith
Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Liberty
Arglwydd Ustus Thorpe
Cymdeithas yr Ynadon
Aelodau o Dŷ'r Cyffredin
Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi
Llinell Gymorth ac Ymholiadau i Ddynion (MALE)
Senedd Mwslemiaid Prydain Fawr

Y Fforwm Cadeiryddion Mainc Cenedlaethol

Y Ganolfan Genedlaethol Trais yn y Cartref

Sefydliad y Rhwydwaith Sikh

Prosiect Merched Asiaidd Newham

NSPCC

Positive East

Llywydd yr Adran Deulu

Refuge

Respect

Rights of Women

Uwch Farnwr Llywyddol

Southall Black Sisters

Standing Together Against Domestic Violence

Ymddiriedolaeth Odysseus

Cymorth i Ddioddefwyr

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cymorth i Fenywod Cymru

Merched mewn Angen Wearside

Cymorth i Fenywod

Comisiwn Cenedlaethol y Merched

Fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr nac yn gyfyngedig. Byddem yn croesawu ymateb gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn neu farn am y pwnc dan sylw yn y papur hwn.

Diffiniad

Yn y papur ymgynghori hwn, cyfeiriwn at berson sydd i'w warchod o dan Orchymyn Amddiffyn Priodi Dan Orfod fel y 'dioddefwr'.

Y cynigion

Rhagarweiniad

Bydd Deddf Priodi Dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007 (y Ddeddf) yn dod i rym yn yr Hydref 2008. Prif nod y Ddeddf yw cynnig mesurau i'r llys i atal priodasau dan orfod rhag digwydd ac i atal rhywun rhag gorfodi person arall i briodi. Mae'r Ddeddf hefyd yn cydnabod bod priodas dan orfod efallai eisoes wedi digwydd, a bydd y llys yn gallu gwneud gorchmynion i warchod y dioddefwr a'u helpu i ddod allan o'r sefyllfa. O dan y Ddeddf, bydd gan y llysoedd ddisgresiwn eang i'w galluogi i ymateb yn effeithiol i amgylchiadau unigol pob achos.

Pan fydd y llys yn gwneud Gorchymyn Amddiffyn Priodi Dan Orfod (y gorchymyn), gall gynnwys hawl arestio lle mae perygl o niwed sylweddol i'r dioddefwr neu i rywun arall sy'n gysylltiedig â'r briodas arfaethedig. Mae hyn yn rhoi hawl i blismon arestio unrhyw un y mae'n ei amau o dorri neu o ddirmygu telerau'r gorchymyn. Gall y llys wneud gwarant arestio lle nad oes hawl arestio ynghlwm. Lle mae person wedi torri neu'n dirmygu gorchymyn, bydd y llys yn delio â nhw o dan ei bwerau dirmyg llys, sy'n cynnwys eu hanfon i'r carchar.

Mae pedair ffordd y gall llys wneud Gorchymyn Amddiffyn Priodi Dan Orfod. Yn gyntaf, gall y person sy'n cael ei orfodi i briodi wneud cais i'r llys am orchymyn. Yn ail, gall person arall wneud cais ar ran y dioddefwr os ydynt yn gofyn am ganiatâd gan y llys. Yn drydydd, gall y llys wneud gorchymyn heb gais os oes achos teulu eisoes ger ei fron. Yn olaf, mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi hawl i drydydd parti perthnasol wneud cais ar ran y dioddefwr heb fod angen iddo / iddi ofyn am ganiatâd gan y llys yn gyntaf. Bydd yr Arglwydd Ganghellor yn penderfynu pwy sy'n cael bod yn drydydd parti perthnasol i bwrpas y Ddeddf.

Sgôp yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y trydydd parti perthnasol. Mae hefyd yn gwahodd awgrymiadau ymarferol ynghylch sut y gallwn sicrhau bod ein prosesau llys yn syml a hawdd i'w defnyddio. Mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori o'r blaen ar faterion ehangach y diffiniad o briodi dan orfod a'r potensial i droseddoli ymddygiad sy'n arwain at orfodi rhywun i briodi. Ar ôl ymgynghori, penderfynodd y Llywodraeth beidio â throseddoli'r ymddygiad hwnnw. Mae'r Ddeddf yn cynnig ateb sifil i briodi dan orfod.

Bydd y Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Teuluol yn penderfynu ar yr ymgynghoriad priodol ynghylch pa reolau llys sydd eu hangen i gefnogi'r Ddeddf. Os dymunwch dderbyn yr ymgynghoriad hwn, cofiwch roi gwybod inni.

Fel a nodwyd wrth i'r Ddeddf fynd drwy'r Senedd, bydd y meini prawf cymorth cyfreithiol sy'n berthnasol i ddioddefwyr trais yn y cartref hefyd yn berthnasol i ddioddefwyr priodi dan orfod sy'n gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn Priodi Dan Orfod. Bydd ymgynghoriad ar wahân ar y newidiadau sydd angen eu gwneud i'r Cod Cyllido ar gyfer Cymorth Cyfreithiol.

Bydd ymgynghoriad ar wahân ar ffioedd llys yn cael ei gyhoeddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2008. Bydd ffioedd llys am geisiadau am Orchymyn Amddiffyn Priodi Dan Orfod yn dod o fewn y categori ffioedd trais yn y cartref. £60 yw'r ffi hon ar hyn o bryd. Ni fydd yn rhaid i geisyddion dalu ffi'r llys os ydynt yn derbyn un o'r budd-daliadau prawf modd penodol, neu os yw eu hincwm blynyddol gros o dan drothwy arbennig. Os yw ceisydd yn ystyried y byddai talu ffi'r llys yn achosi caledi eithriadol iddynt, medrant wneud cais i'w ddileu'n rhannol. Bydd staff y llys yn asesu incwm gwario'r ceisydd ac yn cyfrifo pa gyfraniad y dylai'r ceisydd ei dalu tuag at y ffi.

Gwneud cais ar ran y dioddefwr

Gall unrhyw un sydd i gael ei warchod gan Orchymyn Amddiffyn Priodi Dan Orfod (a elwir yn ddioddefwr yn y papur ymgynghori hwn) wneud cais i'r llys. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn cydnabod nad yw pob dioddefwr mewn sefyllfa i wneud cais ei hun. Efallai bod dioddefwr yn rhy ofnus i wneud cais, neu'n cael eu bygwth. Medrant gael eu cludo allan o'r wlad neu eu carcharu yn eu cartref.

Mae'r Ddeddf yn cynnig dwy ffordd i rywun ddechrau gwneud cais ar ran y dioddefwr. Yn gyntaf, mae'n rhoi hawl i berson arall wneud cais os yw'n gofyn am ganiatâd y llys yn gyntaf. Pan fydd rhywun yn y categori hwn eisiau gwneud cais, rhaid i'r llys ystyried a ydyw am roi caniatâd iddo wneud neu beidio. Mae enghreifftiau o bobl a fydd efallai eisiau gwneud cais o dan y categori hwn yn cynnwys cariadon (merched a dynion), athrawon neu ffrindiau.

Wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd neu beidio, bydd y llys yn edrych ar yr holl amgylchiadau gan gynnwys cysylltiad y ceisydd â'r dioddefwr a faint y mae'r ceisydd yn ei wybod am yr amgylchiadau. Bydd y llys hefyd yn ystyried dymuniadau a theimladau'r dioddefwr cyn belled â phosibl, ac yng ngoleuni oed a dealltwriaeth y dioddefwr.

Os yw'r llys yn penderfynu rhoi caniatâd i berson wneud cais ar ran y dioddefwr, yna'r person hwnnw wedyn yw'r ceisydd. Rhaid talu ffi am wneud cais i'r llys am ganiatâd i wneud cais. Os yw'r llys yn gwrthod caniatâd i wneud cais, yna ni all y person hwnnw wneud y cais ar ran y dioddefwr, oni bai fod yr amgylchiadau'n newid.

Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi hawl i drydydd parti perthnasol wneud cais ar ran dioddefwr. Nid oes angen i drydydd parti perthnasol ofyn i'r llys am ganiatâd i wneud cais a gall wneud hynny ar ran dioddefwr heb fod angen iddynt fod â chysylltiad agos â nhw.

Drwy wneud cais ar ran y dioddefwr, gall y dioddefwr gamu'n ôl o'r achos llys. Efallai bod dioddefwyr yn gyndyn neu'n methu â dwyn achos yn erbyn y drwgweithredwyr sydd, efallai, yn aelodau o'u teulu. Fodd bynnag, mae priodi dan orfod yn fath o drais yn y cartref lle mae dioddefwyr yn cael eu gorfodi i briodi drwy ddefnyddio dulliau corfforol yn ogystal â seicolegol, fel cymell rhywun yn orfodol neu fygwth. Mae dioddefwyr trais yn y cartref, lle bo hynny'n bosibl, yn gallu cadw rhywfaint o reolaeth dros eu hamgylchiadau.

Yn yr adran hon, gofynnwch ichi feddwl am yr angen am drydydd parti perthnasol a phryd y byddai'n briodol iddynt weithredu. Efallai y byddwch eisiau ystyried y manteision o fod yn drydydd parti perthnasol sydd wedi eu nodi yn yr Asesiad o Effaith amgaeëdig. Gan dynnu ar eich profiad o weithio gyda dioddefwyr priodi dan orfod, cofiwch ystyried yr effaith ar y dioddefwr pan fydd person arall yn gwneud cais ar ran rhywun arall. A ydyw o hyd yn brofiad cadarnhaol i'r dioddefwr neu a oes rhesymau pam y dylai trydydd parti perthnasol ond bod yn opsiwn yn niffyg dim arall?

Cwestiwn 1 – O dan ba amgylchiadau y byddai'n briodol i drydydd parti wneud cais ar ran rhywun arall? A oes yna amgylchiadau lle na fyddai'n briodol?

Mae plant o dan 16 oed hefyd yn cael eu gorfodi i briodi. Cofiwch ddweud wrthym os credwch fod hyn yn gwneud gwahaniaeth i bryd y dylai trydydd parti perthnasol wneud cais.

Cwestiwn 2 – A oes unrhyw amgylchiadau eraill lle byddai'n briodol i drydydd parti wneud cais ar ran plentyn o dan 16 oed? A oes unrhyw amgylchiadau lle na fyddai'n briodol?

Pwy a ddylai fod yn drydydd parti perthnasol?

Mae'r Ddeddf yn rhoi hawl i'r Arglwydd Ganghellor ddiffinio pwy sy'n gallu bod yn drydydd parti perthnasol i bwrpas y Ddeddf. Nid yw'n nodi'n benodol pa fath o bobl neu fudiadau ddylai fod yn drydydd parti perthnasol nac ychwaith lle y dylid eu lleoli.

Mae mudiad neu berson sy'n drydydd parti perthnasol yn dod yn gyfrifol am wneud ceisiadau ar ran eraill. Bydd angen iddynt fod yn gallu llenwi ffurflenni llys, casglu a darparu tystiolaeth i'r llys, mynychu'r llys ar gyfer unrhyw wrandawiadau a gwneud cais am warantau arestio.

Bydd angen cyfuniad o staff cymorth ac arbenigedd cyfreithiol. Bydd angen i drydydd parti perthnasol sicrhau bod ganddynt fynediad at arbenigedd cyfreithiol priodol er mwyn gwneud y cais, yn enwedig lle mae'r ochr arall yn herio'r mater. Rhaid i'r trydydd parti perthnasol hefyd sicrhau bod y weithdrefn gywir yn cael ei dilyn fel bod papurau'n cael eu cyflwyno a digon o dystiolaeth yn cael ei chasglu i brofi'r achos. Nid gofyn ydym ichi ystyried sut y bydd y trydydd parti perthnasol yn darparu tystiolaeth ar ran rhywun arall. Os bydd

angen gwneud hyn, bydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad ar wahân ar reolau'r llys ar gyfer gwneud cais.

Mae nifer o bobl a mudiadau sy'n darparu cymorth i ddioddefwyr priodi dan orfod. Ceir mudiadau gwirfoddol ac elusennol sy'n gwneud dim byd arall ond cynnig cymorth a chefnogaeth i rai sy'n cael eu gorfodi i briodi. Maen nhw'n aml yn gweithio'n agos â chymunedau lleol ac yn cynnig cymorth ymarferol rheng flaen.

Mae gan gyrff y llywodraeth hefyd rôl i'w chwarae mewn amddiffyn pobl rhag cael eu gorfodi i briodi. Mae gan yr Uned Priodi Dan Orfod strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â phriodi dan orfod. Mae'r Swyddfa Gartref yn arwain ar leihau trais enw da, sy'n cynnwys priodi dan orfod. Yr heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i droseddau a gyflawnir fel rhan o briodi dan orfod. Mae CAFCASS yn Lloegr a CAFCASS Cymru yng Nghymru wedi eu penodi i ofalu am fuddiannau plant mewn achosion teulu neilltuol, ac mae ganddynt ddyletswydd i ddiogelu buddiannau'r plant hynny (rhai o dan 16 oed).

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb dros oedolion agored i niwed yn eu hardaloedd a thros ddiogelu a hybu lles unrhyw blentyn. Er enghraifft, medrant wneud cais i'r llys am orchymyn i roi'r plentyn hwnnw yn eu gofal lle mae'r plentyn hwnnw'n debygol o ddioddef niwed sylweddol. Gallai ymdrechion i orfodi plentyn i briodi arwain at risg o niwed sylweddol. Unwaith y bydd y Ddeddf mewn grym, bydd y llys yn gallu gwneud gorchymyn yn yr achosion hyn, heb fod raid gwneud cais iddo.

Yn yr adran hon, hoffwn dderbyn eich barn am y math o berson neu fudiad a ddylai weithredu fel trydydd parti perthnasol. Pa sgiliau, nodweddion neu rinweddau sy'n bwysig i fudiad neu unigolyn eu cael i fod yn gyfrifol am wneud cais i'r llys ar ran rhywun arall?

Dylai'r trydydd parti perthnasol fod yn fudiad neu'n berson sy'n gallu ennill a chadw ffydd y dioddefwr ynddynt. Efallai eich bod yn credu bod gan gyrff y Llywodraeth y statws a'r adnoddau i weithredu ar ran eraill. Ond efallai y byddwch yn teimlo y byddai mudiadau gwirfoddol neu elusennol lleol yn gallu deall anghenion dioddefwyr yn well a gweithio'n agos â nhw. Neu, efallai y byddwch yn teimlo bod angen cyfuniad o gyrff Llywodraeth ac elusennol, o ystyried bod y naill gyrff wedi eu dosbarthu'n genedlaethol. A ydych yn teimlo bod angen gwahanol gyrff i weithredu dros oedolion a phlant (rhai o dan 16 oed)?

Cwestiwn 3 – Pa fath o berson neu fudiad yn eich barn chi a ddylai fod yn drydydd parti perthnasol? Rhowch resymau dros eich ateb os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 4 – Pa fath o berson neu fudiad yn eich barn chi a ddylai fod yn drydydd parti perthnasol i blant o dan 16 oed? Rhowch resymau dros eich ateb os gwelwch yn dda.

Bydd angen i unrhyw un sy'n gweithredu fel trydydd parti perthnasol gael adnoddau i gyflawni eu rôl. Wrth ystyried eich ateb i gwestiynau 3 a 4, nodwch ba adnoddau neu gyllid y byddai eu hangen ar y trydydd parti. Efallai y byddwch eisiau edrych eto ar y wybodaeth yn yr Asesiad o Effaith.

Dyfeisiwyd y Ddeddf i gael effaith ataliol. Rydym yn tybio y bydd nifer gymharol fach o achosion i ddechrau felly bwriadwn drefnu i nifer fach o lysoedd wrando ar geisiadau o dan y Ddeddf, yn ystod cam cyntaf ei gweithrediad. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle inni gronni profiad ac arbenigedd mewn nifer fach o lysoedd mewn ardaloedd lle'r ydym yn disgwyl i'r nifer fwyaf o achosion godi. Bwriadwn adolygu nifer a lleoliad y llysoedd fel rhan o'r broses barhaus o fonitro'r Ddeddf. Mae'r Asesiad o Effaith yn rhoi mwy o fanylion ynghylch nifer yr achosion y disgwylir iddynt godi.

Cwestiwn 5 – Ar sail eich atebion i gwestiynau 3 & 4, pa fath o gyllid neu adnoddau y byddai eu hangen ar drydydd parti perthnasol?

Rhagofalon ar gyfer dioddefwyr priodi dan orfod

Nid oes unrhyw feini prawf yn y Ddeddf i'r Arglwydd Ganghellor eu hystyried wrth wneud gorchymyn yn nodi pwy a ddylai fod yn drydydd parti perthnasol. Mae trydydd parti perthnasol yn dod yn gyfrifol am wneud cais a chael gorchymyn gan y llys ar ran y dioddefwr. O ystyried y cyfrifoldeb hwn, rydym eisiau sicrhau mai ond rhai sy'n gweithredu er budd y dioddefwr sy'n cyflawni rôl trydydd parti perthnasol.

Nid oes raid i drydydd parti perthnasol ofyn am ganiatâd y dioddefwr cyn gwneud cais. Mae amgylchiadau lle mae hyn yn gwbl briodol, er enghraifft lle mae'r dioddefwr wedi cael ei gludo allan o'r wlad neu ei garcharu yn groes i'w ewyllys. Beth bynnag yw amgylchiadau'r achos, rhaid i'r llys bob amser ystyried beth yw teimladau a dymuniadau canfyddadwy'r dioddefwr wrth ystyried a ddylid gwneud gorchymyn neu beidio. Fodd bynnag, mae'r hawl eang hwn gan drydydd parti perthnasol yn golygu mai ond mudiadau neu bobl gymwys ddylai fod yn drydydd partïon er mwyn sicrhau bod y dioddefwr yn cael ei warchod ac i osgoi unrhyw gam-ddefnydd posibl.

Yn yr adran hon, hoffwn dderbyn eich barn am yr angen i warchod buddiannau'r dioddefwr. Cofiwch ystyried pa ragofalon a ddylai fod yn eu lle. Er enghraifft, a ddylid gofyn am ganiatâd y dioddefwr bob tro? Efallai y byddwch eisiau ystyried y risgiau a awgrymir yn yr Asesiad o Effaith.

Cwestiwn 6 – Pa ragofalon a ddylai fod yn eu lle ar gyfer dioddefwr i sicrhau bod y trydydd parti perthnasol yn gweithredu er budd y dioddefwr?

Cwestiwn 7 – A oes unrhyw ragofalon eraill y dylid eu sicrhau ar gyfer trydydd parti perthnasol sy'n gweithredu ar ran plant o dan 16 oed?

Gwneud y llys yn hygyrch

Mae'n bwysig nad yw unrhyw un sy'n dymuno gwneud cais yn cael eu cymell i beidio oherwydd y ffurflenni sy'n rhaid eu llenwi neu fod ofn mynd i'r llys arnynt. Mae hefyd yn bwysig bod y llys yn ymddwyn yn deg tuag at y rhai sy'n gwneud cais a'r rhai sy'n ateb neu'n ymateb iddynt. Mae'r llysoedd eisoes yn gwneud llawer i symleiddio ei waith. Er enghraifft, mae ffurflenni wedi eu hysgrifennu mewn Saesneg neu Gymraeg syml ac ar gael ar wefan Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi.

Yn y llys mae ystod o opsiynau ar gael i sicrhau bod y rhai sy'n mynychu yn gallu rhoi eu tystiolaeth. Gyda cheisiadau a wneir o dan y Ddeddf, gellir darparu cyfieithwyr ar y pryd. Hefyd, gall y llys warchod tystion sydd efallai'n agored i niwed (er enghraifft drwy sgrinio'r tyst, fel y gellir rhoi tystiolaeth drwy gyswllt byw neu'n breifat, drwy dynnu wigiau a gynau, a thrwy roi tystiolaeth wedi'i recordio ar fideo, drwy recordio unrhyw groesholi ac ail-holi tystion ar fideo a thrwy gael seibiant yn aml.)

Ar sail eich profiadau o ddelio ag achosion o briodi dan orfod, hoffem wybod a oes unrhyw ffyrdd eraill y gallwn sicrhau nad yw rhai sydd eisiau gwneud cais o dan y Ddeddf yn cael eu cymell i beidio â gwneud hynny. Er enghraifft, efallai eich bod yn teimlo bod angen gwybodaeth mewn gwahanol ieithoedd?

Cwestiwn 8 – Sut y gallwn addasu gweinyddiaeth y llysoedd i gwrdd ag anghenion rhai sy'n defnyddio'r Ddeddf?

Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol fel a nodir yn y papur ymgynghori hwn.

Cwestiwn 1 – O dan ba amgylchiadau y byddai'n briodol i drydydd parti wneud cais ar ran rhywun arall? A oes yna amgylchiadau lle na fyddai'n briodol?

Cwestiwn 2 – A oes unrhyw amgylchiadau eraill lle byddai'n briodol i drydydd parti wneud cais ar ran plentyn o dan 16 oed? A oes unrhyw amgylchiadau lle na fyddai'n briodol?

Cwestiwn 3 – Pa fath o berson neu fudiad yn eich barn chi a ddylai fod yn drydydd parti perthnasol? Rhowch resymau dros eich ateb os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 4 – Pa fath o berson neu fudiad yn eich barn chi a ddylai fod yn drydydd parti perthnasol i blant o dan 16 oed? Rhowch resymau dros eich ateb os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 5 – Ar sail eich atebion i gwestiynau 3 & 4, pa fath o gyllid neu adnoddau y byddai eu hangen ar drydydd parti perthnasol?

Cwestiwn 6 – Pa ragofalon a ddylai fod yn eu lle ar gyfer dioddefwr i sicrhau bod y trydydd parti perthnasol yn gweithredu er budd y dioddefwr?

Cwestiwn 7 – A oes unrhyw ragofalon eraill y dylid eu sicrhau ar gyfer trydydd parti perthnasol sy'n gweithredu ar ran plant o dan 16 oed?

Cwestiwn 8 – Sut y gallwn addasu gweinyddiaeth y llysoedd i gwrdd ag anghenion rhai sy'n defnyddio'r Ddeddf?

Diolch am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch eich hun os gwelwch yn dda.

Enw llawn	
Teitl eich swydd neu ym mha gapasiti yr ydych yn ymateb i'r ymynghoriad hwn (e.e. fel aelod o'r cyhoedd ayb)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni / mudiad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech inni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	☐ (ticiwch y blwch os gwelwch yn dda)
Y cyfeiriad y dylem anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r un uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, dywedwch wrthym beth yw enw'r grŵp a rhowch grynodeb o'r bobl neu'r mudiadau yr ydych yn eu cynrychioli.

Sut i ymateb

Dylech anfon eich ymateb erbyn 14 Mawrth 2008 os gwelwch yn dda, at:

Louis Akinlude
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Family Relationships Branch 2
Post Point 4.17
4th Floor Selborne House
54-60 Victoria Street
Llundain
SW1E 6QW

Ffôn: 020 7210 8320
Ffacs: 020 7210 8681
E-bost: forced.marriage@hmcourts-service.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae copïau ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad uchod a hefyd ar-lein yn http://www.justice.gov.uk/index.htm.

Mae fformatau eraill o'r cyhoeddiad hwn ar gael drwy wneud cais i forced.marriage@hmcourts-service.gsi.gov.uk neu ffonio 020 7210 8320

Cyhoeddi'r ymatebion

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi o fewn tri mis i'r dyddiad y daw'r ymgynghoriad i ben. Bydd y papur ymatebion ar gael ar-lein yn http://www.justice.gov.uk/index.htm.

Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r mudiadau y maen nhw'n eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

Cyfrinachedd

Efallai y byddwn yn cyhoeddi neu'n datgelu gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r ddeddfwriaeth ar fynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os byddai'n well gennych inni drin y wybodaeth a roddwch yn gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â Chod Ymarfer statudol sy'n delio, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymiadau cyfrinachedd. O ystyried hyn, byddai o gymorth i ni pe

gallech roi eich rhesymau pam y credwch fod y wybodaeth a roddwch yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich rhesymau yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gallwn gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol pob tro. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried i fod yn rhwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

Crynodeb: Ymyrryd a Opsiynau

Adran / Asiantaeth:	**Teitl:**	
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder / GLIEM	**Asesiad o Effaith defnyddio Ceisyddion Trydydd Parti o dan y Ddeddf Priodi Dan Orfod**	
Cam: Opsiynau	**Fersiwn:** 1	**Dyddiad:** 12/12/2007

Cyhoeddiadau Cysylltiedig: Cafodd y Ddeddf ei chyflwyno'n gyntaf yn y Senedd gan Arglwydd Lester o Herne Hill fel Mesur Preifat yn Nhŷ'r Arglwyddi cyn derbyn sêl bendith y Llywodraeth yn dilyn hynny. Felly, nid oes unrhyw ddogfennau Llywodraeth eraill yn gysylltiedig â hi. Mae copi o'r Ddeddf ar gael ar y wefan isod.

Ar gael i'w gweld neu i'w lawrlwytho yn:

http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2007/20070020.htm

Beth yw'r broblem dan sylw? Pam fod angen i'r llywodraeth ymyrryd?

Darparu trydydd parti perthnasol i wneud cais ar ran dioddefwr o dan Ddeddf Priodi Dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007

Mae'r Llywodraeth yn ystyried a oes angen iddi ymyrryd neu beidio.

Beth yw'r amcanion polisi a'r effeithiau bwriedig?

Ystyried a oes angen cynnig llwybr mynediad arall at y llys, drwy drydydd parti perthnasol, i ddioddefwyr sy'n methu â gwneud cais i'r llys eu hunain am Orchymyn Amddiffyn Priodi Dan Orfod

Pa opsiynau polisi sydd wedi cael eu hystyried? Dylech gyfiawnhau unrhyw opsiwn yr ydych o'i blaid.

1. Peidio â darparu o gwbl ar gyfer ceisyddion trydydd parti perthnasol

2. Darparu ar gyfer ceisyddion trydydd parti

3. Os dewisir opsiwn 2, penderfynu a ddylai cyrff sector cyhoeddus, neu sector gwirfoddol, neu'r ddau fath o gorff, weithredu fel ceisyddion trydydd parti

Rydym yn ceisio sefydlu pa opsiwn y dylid ei ddewis

Pryd y bydd y polisi'n cael ei adolygu i sefydlu'r union gostau a'r budd, a llwyddiant yr dymunol?

Y bwriad yw monitro ac adolygu'r polisi fel rhan o fonitro ac adolygu gweithrediad y Ddeddf

Llofnod Cymeradwyaeth y Gweinidog Ar gyfer Asesiadau o Effaith yn y cam ymgynghori:

Rwyf wedi darllen yr Asesiad o Effaith a rwyf yn fodlon ei fod, o ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, yn cynrychioli barn resymol am gostau, budd ac effeithiau tebygol y prif opsiynau.

Llofnodwyd gan y Gweinidog cyfrifol:

.....Dyddiad:

Crynodeb: Dadansoddiad & Tystiolaeth

Opsiwn Polisi: Penodi Trydydd Parti	**Disgrifiad: Penodi trydydd parti o'r sector gwirfoddol**

COSTAU

COSTAU BLYNYDDOL	
Untro (Trosiannol) **Bl.**	**Disgrifiad o a maint y costau allweddol a droswyd yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt''**
£ 0	Cymerir y byddai angen gweithiwr cymorth am 6 wythnos gyda phob achos, ac arbenigwr cyfreithiol am 4 diwrnod. Cymerir y byddai pob achos yn costio £2,800
Cost flynyddol gyfartalog (ac eithrio cost untro)	Mae costau llys a chymorth cyfreithiol wedi eu cynnwys yn y sail dystiolaeth sydd ynghlwm
£ 14,000	**Cyfanswm y costau** (PV) **£**

Costau allweddol eraill heb eu trosi yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt' Ni chafodd unrhyw gostau o'r fath eu hadnabod

MANTEISION

MANTEISION BLYNYDDOL	
Untro **Bl.**	**Disgrifiad o a maint y *manteision allweddol a droswyd* yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**
£	Byddem yn croesawu sylwadau a thystiolaeth gan randdeiliaid ynghylch y costau allweddol y credwch a fyddai'n berthnasol ac y byddai angen eu hystyried.
Manteision Blynyddol Cyfartalog (ac eithrio untro)	
£	**Cyfanswm y Manteision** (PV) **£**

Manteision eraill heb eu trosi yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Mae'n cynnig ffordd i rai nad ydynt mewn sefyllfa i wneud cais eu hunain i ofyn bod y llys yn eu hamddiffyn

Tybiaethau Allweddol / Ystyriaethau Sensitif / Risgiau Cymerir y byddai 2 achos yn cael eu dwyn gerbon y llys o ganlyniad i benodi trydydd parti perthnasol. Cymerir y byddai 3 achos newydd yn cael eu dwyn gerbron y llys gan geisydd trydydd parti yn lle'r dioddefwr a fyddai, fel arall, wedi cyflwyno'r cais ei hun

Sail Brisiau - Bl.	Cyfnod Amser – Bl.	**Ystod y Manteision Net** (NPV) **£**	**MANTEISION NET** (NPV – Amcangyfrif Gorau) **£**

Beth yw dosbarthiad daearyddol y polisi / opsiwn?	Cymru & Lloegr
Ar ba ddyddiad y daw'r polisi'n weithredol?	I'w gadarnhau
Pa gorff (gyrff) fydd yn gorfodi'r polisi?	Amherthnasol
Beth yw cyfanswm blynyddol y gost o orfodi ar gyfer y cyrff hyn?	£ Amherthnasol
A ydyw'r trefniadau gorfodi yn cydymffurfio ag egwyddorion	Ydynt / Nac ydynt
A fydd ei weithrediad yn mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol yr UE?	Amherthnasol
Beth yw gwerth y mesur gwrthbwyso arfaethedig y flwyddyn?	£ 0
Beth yw gwerth y newidiadau mewn gollyngiadau tŷ gwydr?	£ 0
A fydd y cynnig yn effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth?	Na fydd

Y gost flynyddol (£-£) i bob corff **(ac eithrio costau untro)**	**Meicro**	**Bach**	**Canolig**	**Mawr**
A oes unrhyw un o'r cyrff hyn wedi eu	Nag oes	Nag oes	Amh.	Amh.

Effaith ar Brisiau Sylfaen y Baich Gweinyddol (prisiau 2005) (Cynnydd - Lleihad)

Cynnydd o £ Lleihad o £ **Net** **£**

Allwedd: **Costau a budd blynyddol: Prisiau Cyson** **(Net) Gwerth Presennol**

Sail Dystiolaeth (ar gyfer crynodebau)

1. Teitl y cynnig
Darparu trydydd parti perthnasol o dan Ddeddf Priodi Dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007

2. Amcan
Sefydlu beth fyddai effaith a chanlyniadau darparu ar gyfer trydydd partïon perthnasol

Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn goleuo'r polisi ac yn manwl gyweirio'r asesiad o effaith. Mae'r asesiad o effaith canlynol yn anghyflawn a byddem yn croesawu unrhyw sylwadau arno. Yn enwedig, byddem yn croesawu sylwadau ar y manteision, costau a'r risgiau a fyddai'n codi pe bai trydydd partïon perthnasol yn cael eu darparu.

3. Cefndir
Gall y dioddefwr neu rywun arall ar ran y dioddefwr (gyda chaniatâd y llys) wneud cais am Orchymyn Amddiffyn Priodi Dan Orfod. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi hawl i'r Arglwydd Ganghellor wneud gorchymyn i berson neu gorff ddod yn drydydd parti perthnasol. Gall trydydd parti perthnasol wneud cais ar ran rhywun arall fel mater o hawl heb fod angen iddo / iddi ofyn am ganiatâd y llys.

4. Y rhesymeg dros i'r llywodraeth ymyrryd
Mae pedair ffordd o wneud Gorchymyn Amddiffyn Priodi Dan Orfod. Y rhain yw:

- Y dioddefwr yn gwneud cais am orchymyn
- Rhywun arall yn cael caniatâd gan y llys i wneud cais am orchymyn ar ran y dioddefwr
- Trydydd parti perthnasol yn gwneud cais am orchymyn
- Llys yn gwneud gorchymyn heb gais os yw'r mater yn codi mewn mathau eraill o achosion teulu

Mae'r Llywodraeth yn holi barn pobl am yr angen am drydydd parti perthnasol ac, os oes angen, pa fath o gyrff / unigolion a ddylai weithredu a pha ragofalon i'w rhoi yn eu lle.

5. Ymgynghori
Ni chafwyd unrhyw ymgynghori blaenorol ar gyflwyno trydydd parti perthnasol. Fodd bynnag, mae darpariaeth debyg ar gyfer trydydd partïon ar gael o dan adran 60 Deddf Cyfraith Teulu 1996. Bu'r Grŵp Cynghori ar Drais yn y Cartref yn ystyried cyflwyno trydydd parti o dan adran 60 yn 2003. Penderfynwyd peidio â symud ymlaen gyda'r opsiwn oherwydd na fyddai'n datrys y problemau a wynebir gan ddioddefwyr trais yn y cartref wrth ddwyn achos yn y llys. Yn hytrach, bryd hynny, gwnaed newidiadau i ddarpariaethau gorfodi i gwrdd â phryderon dioddefwyr.

6. Opsiynau

i) Peidio â darparu ar gyfer trydydd partïon
O dan yr opsiwn hwn, mae tair ffordd o wneud Gorchymyn Amddiffyn Priodi Dan Orfod, sef:

- Bod y dioddefwr ei hun yn gwneud cais
- Bod cais yn cael ei wneud ar ran y dioddefwr
- Bod y llys yn gwneud cais fel rhan o achos teulu presennol

Byddem yn croesawu sylwadau ar a fyddai anghenion dioddefwyr yn cael eu cwrdd pe bai'r opsiwn hwn yn cael ei ddewis. Yn enwedig, unrhyw farn sydd gennych am fanteision neu anfanteision yr opsiwn hwn.

ii) Darparu ar gyfer trydydd partïon
O dan yr opsiwn hwn, byddai'r Llywodraeth yn darparu ar gyfer trydydd parti perthnasol. Gallai fod yn gorff sector cyhoeddus, sector gwirfoddol neu'n gyfuniad o'r ddau fath o gorff, neu'n unigolyn. Byddai hyn yn cynnig ffordd arall i ddioddefwyr priodi dan orfod os oeddent yn teimlo na allent wneud cais eu hunain, neu lle nad oedd unrhyw un arall ar gael i wneud cais ar eu rhan.

Byddem yn croesawu sylwadau ar opsiwn 2, ac yn enwedig beth fyddai'r manteision a'r anfanteision posibl i ddioddefwyr priodi dan orfod.

8. Manteision
Budd posibl darparu trydydd parti perthnasol yw:

- mae'n cynnig ffordd arall i ddioddefwyr gael eu hamddiffyn drwy orchymyn heb orfod gwneud cais eu hunain
- mae'n rhoi hawl i rywun arall wneud cais ar ran person sy'n cael ei atal rhag gwneud ei gais ef neu ei chais hi ei hun
- mae'n golygu bod y dioddefwr yn gallu bod camu'n ôl o'r broses o ofyn am orchymyn yn erbyn ei theulu
- mae'n golygu y gellir gwneud cais lle nad oes unrhyw un arall a allai weithredu ar ran y dioddefwr
- *A oes unrhyw fanteision nad ydym wedi eu henwi ac y dylem eu hystyried?*

9. Costau
Fel gydag unrhyw newid polisi, bydd costau tymor byr yn debygol o gael eu hachosi, fel hyfforddiant yn y gweithdrefnau a'r canllawiau newydd. Efallai y bydd cyrff neu fudiadau sy'n dod yn drydydd partïon perthnasol yn wynebu mwy o anghenion hyfforddi, mwy o amser yn cael ei dreulio ar eiriolaeth a gwaith achos, a mwy o bwysau ar eu hadnoddau i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Nifer yr achosion fydd y prif ffactor yng nghyswllt costau'r polisi hwn. Rhwng 5 a 50 o achosion y flwyddyn yw'r amcangyfrif gorau o ran ba gyfran a allai arwain at achosion llys o dan Ddeddf Priodi Dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007. Dywedodd gweithwyr achos yn yr Uned Priodi Dan Orfod, o'r 300 o achosion yr oeddent yn delio â nhw'n flynyddol, na fyddai gan ddwy ran o dair yr amgylchiadau sy'n ofynnol o dan y Mesur, ond y byddai gan tua 100. Roeddent yn tybio y byddai angen i gyn lleied â 5 o'r rhain wneud cais i'r llys pob blwyddyn. Mae'n debyg y byddai nifer yr achosion i ddechrau yn eithaf isel gan gynyddu'n raddol wrth i'r ddeddfwriaeth ddod yn fwy cyfarwydd i rai sy'n helpu dioddefwyr priodi dan orfod. Fodd bynnag, efallai y bydd nifer y bobl sy'n dewis defnyddio'r darpariaethau newydd yn parhau i fod yn isel iawn, o leiaf am y blynyddoedd cyntaf yn dilyn eu gweithredu. Barn yr uwch aelodau o'r farnwriaeth sy'n delio ag achosion o briodi dan orfod yn yr Uchel Lys yw bod tua 30 o geisiadau'n ymwneud â phriodi dan orfod wedi dod gerbron yr Uchel Lys yn y 12 mis diwethaf.

Mae'n anodd asesu a fydd argaeledd trydydd parti perthnasol yn golygu bod mwy o geisiadau'n cael eu gwneud neu a fydd dioddefwyr yn dewis defnyddio trydydd parti perthnasol yn hytrach na chyflwyno cais eu hunain. I bwrpas yr ymgynghoriad hwn, cymerwn y daw 2 achos newydd gerbron y llys o ganlyniad i benodi trydydd parti perthnasol (h.y. ni fyddai'r achosion yn cael eu dwyn heb geisydd trydydd parti). Cymerwn hefyd y byddai 3 achos yn cael eu dwyn i'r llys gan y trydydd parti perthnasol yn lle'r dioddefwr a fyddai, fel arall, wedi cyflwyno cais ei hun.

Cymerwyd y byddai'r trydydd parti perthnasol yn ysgwyddo'r gost o wneud a symud ymlaen gyda'r cais. Felly, un effaith cais gan drydydd parti yw na fyddai'r ceisydd yn gofyn am gymorth cyfreithiol. Fodd bynnag, gallai'r atebwyr dal wneud cais am gymorth cyfreithiol.

Byddem yn croesawu sylwadau ar y tybiaethau a wneir uchod.

7. Risgiau
Bydd y trydydd parti perthnasol yn gallu gwneud cais ar ran unrhyw un heb ofyn am ganiatâd y llys a heb fod angen iddynt fod â chysylltiad agos â'r dioddefwr. Y risgiau a allai godi yw:

- Gallai ceisiadau gael eu gwneud nad ydynt er budd y dioddefwr
- Gallai ceisiadau gael eu cychwyn heb ganiatâd y dioddefwr
- *A oes unrhyw risgiau eraill nad ydynt wedi eu hadnabod? A oes unrhyw faterion hawliau dynol yn codi?*

Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ar sut y gallwn ddiogelu yn erbyn neu liniaru yn erbyn y risgiau hyn.

Profion Effaith Penodol: Rhestr Wirio

Defnyddiwch y tabl isod i ddangos pa mor eang yr ydych wedi ystyried effeithiau posibl eich opsiynau polisi.

Dylech sicrhau bod canlyniadau unrhyw brofion sy'n effeithio ar y dadansoddiad cost a budd wedi eu cynnwys yn y brif sail dystiolaeth; gellir rhoi unrhyw ganlyniadau eraill mewn atodiadau.

Y math o brofion a gynhaliwyd	***Canlyniadau yn y sail dystiolaeth?***	***Canlyniadau mewn atodiad?***
Asesiad o'r Gystadleuaeth	Na	Na
Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach	Na	Ie
Cymorth Cyfreithiol	Na	Ie
Datblygu Cynaliadwy	Na	Na
Asesiad Carbon	Na	Na
Amgylchedd Arall	Na	Na
Asesiad o'r Effaith ar Iechyd	Na	Na
Cydraddoldeb Hil	Na	Ie
Cydraddoldeb Anabledd	Na	Na
Cydraddoldeb Rhywiol	Na	Ie
Hawliau Dynol	Na	Na
Prawfesur Polisïau Gwledig	Na	Na

Atodiadau

Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach
Ni fydd unrhyw effaith ar gwmnïau bach.

Asesiad o'r gystadleuaeth
Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith ar gystadleuaeth.

Gorfodi, sancsiynau a monitro
Mae'r cynigion yn creu darpariaethau newydd, sydd ar gael i ddynion a merched yn ôl eu disgresiwn. Bydd unrhyw Orchymyn Amddiffyn Priodi Dan Orfod yn cael ei orfodi drwy bwerau dirmyg y llysoedd. Bydd proses fonitro ac adolygu'n cael ei sefydlu ar gyfer achosion unwaith y daw'r Ddeddf i rym. Efallai y bydd monitro anffurfiol hefyd yn cael ei gyflawni, gan yr Uned Priodi Dan Orfod a Chyrff Anllywodraethol eraill sy'n gweithio ym maes priodi dan orfod.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Cafodd Asesiad cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei gyflawni fel rhan o'r Asesiad Rhannol o Effaith y Rheoliadau yn ystod llwybr y Ddeddf drwy'r Senedd. Bydd gwybodaeth a gasglwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn cael ei bwydo i Asesiad pellach o'r Effaith ar Gydraddoldeb sydd i'w gyhoeddi ac a fydd ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae cyflwyno ceisyddion trydydd parti perthnasol yn debygol o effeithio ar:

- unigolion, yn ymarferol pobl o grwpiau diwylliannol ac ethnig De Asia yn arbennig, drwy gynnig opsiwn arall yn lle gorfod gwneud cais eu hunain
- y rhannau hynny o'r sector cyhoeddus sydd fwyaf tebygol o fod yn gweithio i helpu dioddefwyr posibl priodi dan orfod ac sy'n cael eu penodi fel ceisyddion trydydd parti. Mae'r rhai a fyddai efallai'n cael eu hystyried i gyflawni'r rôl hon yn cynnwys yr Uned Priodi Dan Orfod (a noddir ar y cyd gan y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad), adrannau gwasanaethau plant ac oedolion mewn awdurdodau lleol, neu'r heddlu
- cyrff o fewn y sector gwirfoddol ac elusennol sy'n dod yn drydydd partïon perthnasol (cyrff anllywodraethol a grwpiau cymorth sy'n gweithio ym maes priodi dan orfod).

Bydd gwahanol grwpiau o bobl yn defnyddio'r Ddeddf ar wahanol adegau a bydd ganddynt wahanol anghenion, profiadau a materion yn codi yng nghyswllt y ddeddfwriaeth. Bydd y rhain yn ymwneud â:

- oed (mae'r rhan fwyaf o'r dioddefwyr rhwng 15-24)
- rhyw (mae 85% o'r dioddefwyr yn ferched)
- grŵp hil (mae 90% o'r dioddefwyr o darddiad ethnig Pacistanaidd neu Fangladeshaidd)
- crefydd (mae 90% o'r dioddefwyr yn Fwslemiaid)

Un o effeithiau andwyol posibl y polisi o gyflwyno trydydd parti perthnasol yw:

- y byddai'n effeithio'n anghymesur ar gymunedau Du a lleiafrifol ethnig ac yn cael ei ddehongli fel beirniadaeth o ddiwylliant y cymunedau hyn.

Fodd bynnag, mae'r polisi o gyflwyno trydydd parti perthnasol yn sensitif mewn ffyrdd eraill i anghenion arbennig gwahanol grwpiau o bobl:

- *byddem yn croesawu sylwadau ar sut y gallwn sicrhau bod anghenion gwahanol grwpiau o bobl yn cael eu cwrdd wrth ystyried pwy i'w penodi yn drydydd partïon perthnasol*

Er y bydd mwy yn dewis defnyddio trydydd partïon perthnasol o wahanol grwpiau hil, cymdeithasol, crefyddol a rhyw, nid yw'r polisi'n gwahaniaethu naill ai'n gadarnhaol nac yn negyddol yn erbyn unrhyw grŵp neilltuol – mae'r darpariaethau ar gael i bawb eu defnyddio. Yn yr un modd, nid oes unrhyw beth yn y ddeddfwriaeth sy'n cymell person i'w defnyddio – mae yno i gael ei defnyddio yn ôl disgresiwn unigolyn pan fydd ef neu hi'n teimlo y byddai'n helpu i wella eu sefyllfa bersonol.

Prawf Effaith ar y Farnwwriaeth ac ar weinyddu Cyfiawnder
Fel a nodir yn 9 uchod, i bwrpas yr ymgynghoriad hwn, cymerwyd y daw 2 achos newydd gerbron y llys o ganlyniad i benodi trydydd parti perthnasol (h.y. ni fyddai'r achosion yn cael eu dwyn heb geisydd trydydd parti). Cymerwyd hefyd y byddai 3 achos yn cael eu dwyn i'r llys gan y trydydd parti perthnasol yn lle'r dioddefwr a fyddai, fel arall, wedi cyflwyno cais ei hun.

Tybir y byddai'r gost flynyddol o weinyddu'r achosion hyn i Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, gan gynnwys amser llys a staff, yn oddeutu £600 am bob cais. Felly, a chymryd mai ond 2 achos newydd sy'n cael eu dwyn, mae'r gost i'r llys yn £1200. Cymerwyd y byddai'r costau gorfodi a'r costau amrywio yn isel iawn o'u cymharu â'r costau hyn.

Mae'r gost ar hyn o bryd i'r gwasanaeth cymorth cyfreithiol ar sail pump achos y flwyddyn wedi'i chyfrifo i fod yn £18,757. O ystyried y senario bod y trydydd parti perthnasol yn dwyn 3 achos (a fyddai fel arall wedi cael eu dwyn gan y dioddefwr), a bod dau achos newydd, cyfrifwyd y byddai'r gost i'r gronfa cymorth cyfreithiol yn £13,380. Mae hyn yn cymeryd y byddai atebwyr yn gofyn am gyngor a chymorth cyfreithiol ym mhob achos ac y byddai cymorth cyfreithiol yn cael ei roi yn hanner yr achosion.

Byddem yn croesawu eich sylwadau ar y tybiaethau hyn.

Meini prawf yr ymgynghoriad

Dyma'r chwe maen prawf ar gyfer yr ymgynghoriad:

1. Ymgynghori'n eang drwy gydol y broses, gan roi o leiaf 12 wythnos ar gyfer ymgynghoriad ysgrifenedig o leiaf unwaith yn ystod datblygiad y polisi.

2. Bod yn glir ynghylch beth yw eich cynigion, pwy allai gael eu heffeithio, pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn a'r amserlen ar gyfer derbyn ymatebion.

3. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn glir, yn gryno ac ar gael i gymaint o bobl â phosibl.

4. Rhoi adborth ynghylch yr ymatebion a dderbyniwch a sut y dylanwadodd y broses ymgynghori ar y polisi.

5. Monitro pa mor effeithiol yw eich adran yn ymgynghori, gan gynnwys drwy ddefnyddio cydlynydd ymgynghori dynodedig.

6. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn dilyn yr arferion gorau ar reoleiddio gwell, gan gynnwys cyflawni Asesiad o Effaith lle bo hynny'n briodol.

Rhaid rhestru'r meini prawf hyn ym mhob un o ddogfennau'r ymgynghoriad.

Manylion cyswllt y Cydlynydd Ymgynghori

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y **broses** ymgynghori yn hytrach nag am y pwnc a drafodir yn y papur hwn, dylech gysylltu â Laurence Fiddler, Cydlynydd Ymgynghori y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar 020 7210 2622, neu ei e-bostio yn consultation@justice.gsi.gov.uk.

Neu gallwch ysgrifennu ato yn y cyfeiriad isod:

Laurence Fiddler
Cydlynydd Ymgynghori
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
5th Floor Selborne House
54-60 Victoria Street
Llundain
SW1E 6QW

Os yw eich cwynion neu sylwadau yn ymwneud â phwnc a drafodir yn y papur hwn yn hytrach nag â'r broses ymgynghori ei hun, dylech eu cyfeirio at y person cyswllt o dan yr adran **Sut i ymateb** yn y papur hwn ar dudalen 16.

© Hawlfraint y Goron
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i forced.marriage@hmcourts-service.gsi.gov.uk